# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR CYSWLLT RHEILFFORDD ARFORDIR Y CAMBRIAN**

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b., DYDD GWENER, 24AIN MAI, 2024**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679 878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(DOSBARTHWYD 16.05.24)

# PWYLLGOR CYSWLLT RHEILFFORDD ARFORDIR Y CAMBRIAN

## AELODAETH

Cyngor Gwynedd
Cynghorwyr:
Elfed Wyn ap Elwyn
Louise Hughes
Elin Hywel
Anne Lloyd Jones
Eryl Jones-Williams
Gwilym Jones
Dewi Owen
Gwynfor Owen
Richard Glyn Roberts
Sedd wag – Plaid Cymru

Dafydd Meurig – Aelod Cabinet Amgylchedd

Cyngor Sir Ceredigion
Sedd wag

Cyngor Sir Powys
Cynghorydd J M Williams

Aelod Cyfetholedig:

| | |
|---|---|
| Aled Williams | Ysgol Ardudwy |
| Aled Jones-Griffith | Coleg Meirion Dwyfor – Grwp Llandrillo Menai |
| Ann Elias | Cyngor Sir Ceredigion |
| Chris Wilson | Cyngor Sir Ceredigion |
| Claire Britton | Rheilffordd Ffestiniog |
| Claire Williams | Partneriaeth Rheilffordd Cambrian |
| Cynghorydd Meryl Roberts | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri |
| Cynghorydd Alun Wyn Evans | Cynrychiolydd Meirionnydd Un Llais Cymru |
| Sedd wag - | Cynrychiolydd Dwyfor Un Llais Cymru |
| Cynghorydd Trevor Roberts | Pwyllgor Rheilffordd Amwythig/Aberystwyth |
| David Crunkhorn | Trenau Arriva Cymru |
| David Thorp | Ysgol Uwchradd Tywyn |
| Delwyn Evans Grwp | Mynediad Meirionnydd |
| Joyce Watson | Aelod Senedd Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Liz Saville Roberts | Aelod Seneddol Llyw Prydain - Dwyfor Meirionnydd |
| Mabon ap Gwynfor | Aelod Senedd Dwyfor Meirionnydd |
| Cefin Campbell | Aelod Senedd Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Lorraine Simkiss | Rheilffordd Talyllyn |
| Roger Goodhew / Bill Redfern | Cymdeithas Teithwyr Amwythig - Aberystwyth |

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Gail Jones | Trafnidiaeth Cymru |
| Charlotte Harries | Network Rail |
| Tomos Roberts | Network Rail |
| Rhian Williams | Rheolwr Cludiant Integredig a Diogelwch Ffyrdd Cyngor Gwynedd |

Cynrychiolaeth gan Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig

# RHAGLEN

**1. YMDDIHEURIADAU**

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. COFNODION** 5 - 10

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd Mawrth 22ain 2024 fel rhai cywir

**5. NEWIDIADAU ARFAETHEDIG TRAFNIDIAETH CYMRU I AMSERLENNI RHEILFFORDD ARFORDIR Y CAMBRIAN 2024**

Trafod newidiadau arfaethedig i amserlenni Rheilffordd Arfordir y Cambrian 2024

**CYNHADLEDD GYSWLLT RHEILFFORDD ARFORDIR Y CAMBRIAN**

**22ain Mawrth 2024**

**Presenoldeb:**

**Yn bresennol:**

Cyng. Dewi Owen (Cyngor Gwynedd)
Cyng. Gwynfor Owen (Cyngor Gwynedd)
Cyng. Anne Lloyd Jones (Cyngor Gwynedd)
Cyng. Eryl Jones-Williams (Cyngor Gwynedd)
Cyng. Gwilym Jones (Cyngor Gwynedd)
Cyng. Louise Hughes (Cyngor Gwynedd)
Cyng. Richard Glyn Roberts (Cyngor Gwynedd)
Cyng. Elfed Wyn ap Elwyn (Cyngor Gwynedd)

Cyng. Dafydd Meurig (Aelod Cabinet Amgylchedd Cyngor Gwynedd)

Cyng. J M Williams (Cyngor Sir Powys)
Cyng. Trevor Roberts (Pwyllgor Rheilffordd Amwythig/Aberystwyth)
Cyng. Meryl Roberts (Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri)
Bill Redfern (Cymdeithas Trenau Teithwyr Amwythig – Aberystwyth)

Charlotte Harries (Network Rail)
Gail Jones (Trafnidiaeth Cymru)

Lowri Haf Evans LHE (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth Cyngor Gwynedd)

**1. YMDDIHEURIADAU:**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Liz Saville Roberts (AS Dwyfor Meirionnydd), Mabon ap Gwynfor (AS Dwyfor Meirionnydd)**,** Cyng. Elin Hywel (Gwynedd), Clare Britton (Rheilffordd Ffestiniog), David Crunkhorn (Trenau Arriva Cymru), Lorraine Simkiss (Rheilffordd Tal-y-llyn) a Clare Williams (Partneriaeth Rheilffordd y Cambrian)

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. COFNODION**

Derbyniodd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod blaenorol y pwyllgor hwn a gynhaliwyd 1af o Ragfyr 2023 fel rhai cywir

5. **CYMDEITHAS CYNGHORAU LLEOL GOGLEDD A CHANOLBARTH CYMRU – Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd 17eg Tachwedd 2023**

Cyflwynwyd er gwybodaeth, gofnodion cyfarfod a gynhaliwyd 17 Tachwedd 2023. Mynegodd y Cyng. Trevor Roberts (Cynrychiolydd Pwyllgor Rheilffordd Amwythig/Aberystwyth) bod arolwg o wasanaethau wedi ei gwblhau lle canmolwyd staff lleol sydd yn gwasanaethu'r daith rhwng Pwllheli a Machynlleth - cyfeiriwyd yn benodol at enghreifftiau o benderfyniadau lleol yn cael eu gwneud gan bobl leol yn hytrach na gorfod aros am benderfyniad o Gaerdydd. Ategwyd bod gwersi wedi eu dysgu yma.

Nodwyd unwaith eto bod diffyg lle ar y trenau

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â chymryd rhan yn yr arolwg, nodwyd mai gwirfoddolwyr sydd yn cynnal yr arolwg a bod bwriad cynnal un arall yn fuan. **Cyng Trevor Roberts i rannu'r dyddiad gyda LHE**

6. **DIWEDDARIAD GAN Y GWASANAETHAU**

**PRIFFYRDD, PEIRIANNEG a YGC (Cyngor Gwynedd)**
**Diweddariad o sefyllfa ffordd y clogwyn ar y A493 ger Y Friog.**

Derbyniwyd ymddiehuriadau gan Mr Steffan Jones (Pennaeth Priffyrdd, Peirianeg a YGC) nad oedd yn gallu mynychu'r cyfarfod gan na fu i'r ddolen Zoom weithio iddo ac felly yn methu rhoi diweddariad ar lafar i aelodau'r Pwyllgor. Ategodd mewn ebost i'r Cadeirydd y byddai yn rhannu adroddiad o'r sefyllfa gyda'r Aelodau.

Mynegwyd siom nad oedd Steffan Jones yn gallu mynychu'r cyfarfod a bod diffyg symud ymlaen ar y sefyllfa. Nodwyd:

- Bod rhaid datrys y sefyllfa
- Bod rhaid datrys perchnogaeth yr ased a chydweithio i symud ymlaen
- Bod y ffordd yn un dosbarth A - yn ffordd brysur, gysylltiol
- Bod rhan o'r wal wedi ei diddymu – angen datrys y rhwystr
- Bod digon o addewidion ond dim newid
- Bod Network Rail yn adrodd nad oeddynt wedi derbyn ymateb i lythyrau a anfonwyd i'r' Cyngor

**NETWORK RAIL**

Croesawyd Charlotte Harries (Rheolwyr Cyfathrebu Network Rail) i'r cyfarfod. Mynegodd bod y gwasanaeth yn parhau i weithio i wella profiadau teithwyr. Nid oedd diweddariadau penodol ar waith rhwng Machynlleth a Pwllheli, ond cyfeiriwyd at welliannau i orsaf Y Drenewydd.

Diolchwyd am y diweddariad. Diolchwyd hefyd am y gwaith mae Network Rail yn ei wneud i sicrhau bod y cyswllt rheilffordd yn effeithiol i deithwyr.

**TRAFNIDIAETH CYMRU**

Croesawyd Gail Jones (Rheolwr Rhanddeiliaid (Canolbarth a Gogledd Cymru) i'r cyfarfod. Nododd bod canfyddiadau'r arolwg wedi eu cyflwyno i Trafnidiaeth Cymru a bod gwaith yn cael ei wneud i ymateb i'r canfyddiadau hynny. Ategodd bod yr arolwg yn darparu gwybodaeth werthfawr am brofiadau'r teithwyr ac yn unol â chais gan yr aelodau, cytunwyd bod modd rhannu gwybodaeth am y nifer teithwyr sydd yn defnyddio Rheilffordd Arfordir y Cambrian. **GJ i rannu'r wybodaeth gyda LHE i'w ddosbarthu yn y cyfarfod nesaf.** (Gwnaed sylw, wrth ddehongli'r wybodaeth, bydd angen ystyried bod y rheilffordd wedi cau am rai misoedd yn ystod y tair blynedd diwethaf tra bod gwaith yn cael ei wneud ar y draphont yn Abermaw).

Hysbyswyd yr aelodau bod Cyfarfod Grŵp Cyswllt Trafnidiaeth yn cael ei gynnal ym Mis Ebrill ac y byddai mwy o wybodaeth i ddilyn.

Materion yn codi o'r drafodaeth ddilynol.

- Bod angen cadarnhad o ddefnydd trenau pedwar cerbyd ar y Cambrian i'r dyfodol - ar hyn o bryd ymddengys mai dwywaith y diwrnod fydd y trenau hyn yn rhedeg ac yn ystod gwyliau'r haf yn unig - nid yw hyn yn ymateb i'r angen.
- Bod cais am drenau pedwar cerbyd wedi ei gwneud ers sawl blwyddyn, ond dim byd yn digwydd. Er yr addewid am drenau newydd nid yw hyn yn golygu mwy o drenau. Er ceisio gwybodaeth / diweddariad am y sefyllfa, bod swyddogion yn newid yn rheolaidd – angen sicrhau un pwynt cyswllt.
- Bod gormod o deithwyr yn gorfod sefyll ar y teithiau sydd o ganlyniad yn atal y casglwr ticedi rhag casglu arian. Hyn yn golled ariannol i'r gwasanaeth

Mewn ymateb i'r sylwadau nododd Swyddog Trafnidiaeth Cymru nad oedd trenau sbâr a'r gael a bod pob ymdrech yn cael ei wneud i sicrhau bod digon o gerbydau ar gael i ymateb i'r angen. Nododd nad oedd y trenau newydd wedi eu cyflwyno mor gyflym â'r disgwyl, ond bod opsiynau yn cael eu hystyried i ddatrys y sefyllfa.

Tynnwyd sylw at ddigwyddiad yn Chwefror 16 2024 o deithiwr yn aros am y trên olaf o Bwllheli (20:30). Er bod y trên yn yr orsaf, nid oedd mynediad i'r trên yn cael ei ganiatáu i deithwyr er bod y tywydd yn ddifrifol. Unwaith roedd y drysau i'r cerbydau yn agor, roedd y trên yn ymddangos yn flêr ac yn fudr. Nid oedd hyn yn brofiad braf - yn anfon neges anghywir i deithwyr. Ar y pryd, rhannwyd neges a llun ar *trydar*.

Mewn ymateb i'r digwyddiad, nododd Swyddog Trafnidiaeth Cymru bod rheolau llym yn ymwneud ag agor y drysau pan fydd y trên yn aros yn yr orsaf, ond derbyniwyd bod anghysondebau i hyn. Gofynnwyd am gopi o'r lluniau ac fe awgrymodd i'r dyfodol y dylid cyfeirio unrhyw brofiadau gwael yn uniongyrchol ati hi.

Fel pwynt cyswllt ar gyfer ymholiadau / sylwadau / gwybodaeth am Drafnidiaeth Cymru, bod modd cysylltu gyda GJ drwy e-bost

**HEDDLU TRAFNIDIAETH BRYDEINIG**

Dim cynrychiolydd wedi mynychu

## 7. YMATEB I GWESTIYNAU FFURFIOL

### Cyngor Tref Criccieth

Cwestiwn: A oes modd paentio stesion Criccieth? Mae Criccieth yn ei Blodau yn gweithio'n galed ar welliannau a chynnal y tiroedd yno a byddai'n hwb mawr cael cot o baent i'r stesion er mwyn gwella golwg a chroesawu defnyddwyr yno. Diolch yn fawr iawn am eich ystyriaeth. Diolch yn fawr iawn am gytuno i waredu'r graffiti ar y pontydd - ac am y gwaith gwych yn stesion Criccieth a hefyd torri'r tyfiant coed ger rhandiroedd Cae Crwn.

Ateb: Bod posib i Trafnidiaeth Cymru a Network Rail gydweithio fel un diwydiant i weithredu'r gwelliannau.

### Cyngor Cymuned Llanbedr

Cwestiwn: Mae sôn wedi bod yn y Cyngor yn ddiweddar bod yna uwchraddio i fod cyn diwedd Mawrth ar y gysgodfan (shelter) ar Orsaf Talwrn Bach Llanbedr. Hoffwn gadarnhad a yw hyn yn wir?

Ateb: Bod gwaith yn cael ei wneud i ganfod ffynhonnell ariannu i gyflawni'r gwaith. Nodwyd nad oedd strwythur y platfform yn addas ar gyfer adeiladu cysgodfan newydd, ond bod gwaith yn cael ei wneud i adfer a pheintio'r gysgodfan bresennol.

Cwestiwn: A oes unrhyw ddatblygiad posib i leoli rhwystrau (barriers) ar y groesfan yma?

Ateb: Network Rail i holi eu Tîm Croesfan Rheilffordd am wybodaeth ynglŷn â'r sefyllfa.

Cwestiwn: Parthed bin sbwriel. A oes modd pwyso am hwn. Gwn nad yw Cyngor Gwynedd wedi darparu bin baw cŵn ger y safle. Tybed a oes modd dod i gytundeb efo Cyngor Gwynedd i gasglu sbwriel oddi ar yr orsaf.

Ateb: Bod y bin sbwriel / bin baw cŵn yn fater i'r Cyngor. Trafnidiaeth Cymru yn gwrthod rhoi bin sbwriel yn Llanbedr oherwydd bod disgwyl i swyddogion y trên gasglu'r sbwriel (sydd yn cynnwys baw cŵn) – nid yw hyn yn sefyllfa ddelfrydol gan fod hyn yn creu drewdod ar y trên. Cais felly i'r Cyngor ddarparu bin baw cŵn yng Ngorsaf Llanbedr. **LHE i gysylltu gydag adran berthnasol Cyngor Gwynedd**

Cwestiwn: Hefyd pwyso ar gael yr hen enw TALWRN BACH yn ysgrifenedig ar yr arwydd (hynny yw o dan y gair Llanbedr)

Ateb: Derbyn yr awgrym - am geisio mwy o wybodaeth ynglŷn â'r posibilrwydd o ychwanegu enw ar yr arwydd

Gwnaed cais i sicrhau cysondeb mewn ymatebion ac y dylid cyfathrebu unrhyw faterion o bwys yn uniongyrchol i'r Clerc Cyngor Cymuned a'r Aelodau Lleol - Cyng Gwynfor Owen a'r Cyng Anwen Hughes.

**Mr Roger Goodhew (Cynrychiolydd Cymdeithas Teithwyr Amwythig – Aberystwyth)**

Cwestiwn: Pryd fydd depo Machynlleth yn cael digon o unedau i alluogi'r 06:45 Abermaw i Fachynlleth i weithredu a) heb ganslo'n aml, b) fel rhan drwodd i Faes Awyr Rhyngwladol Birmingham

Ateb: Bod gwelliannau diweddar wedi eu gweithredu ac er nad oedd trenau sbâr a'r gael bod pob ymdrech yn cael ei wneud i sicrhau bod digon o gerbydau ar gael i ymateb i'r angen.

Mewn ymateb, er derbyn bod y gwasanaeth wedi gwella yn ddiweddar rhaid mynnu bod y trên cyntaf a'r trên olaf yn rhedeg – hyn yn hanfodol ar gyfer ysgolion, colegau a gwaith. Gellid defnyddio trenau sydd ar gael yn fwy rheolaidd.

Ategodd Swyddog Trafnidiaeth Cymru y bydd diweddariad ar y rheilffordd, gorsafoedd ac amserlenni yn cael ei drafod yng Nghyfarfod Grŵp Cyswllt Trafnidiaeth (11-04-24)

Cwestiwn: Pryd fydd y pwyllgor yn ailddechrau cynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb?

Ateb: Fel y nodwyd ym Mhwyllgor Mawrth 2023:

Yng nghyfarfod y Cyngor Llawn ar yr 2il o Ragfyr 2021 bu i'r Cyngor benderfynu ar yr egwyddor o gynnal cyfarfodydd pwyllgorau ffurfiol yn rhithiol lle bo modd gwneud hynny a chynnal cyfarfodydd hybrid lle bo diddordeb uchel gan y cyhoedd. Mae'r adroddiad yn nodi mai cyfarfodydd y Cyngor Llawn, Cabinet, pwyllgorau craffu a phwyllgor Cynllunio yn unig sy'n cael eu cynnal yn aml leoliad (sef yn hybrid). Bydd yr holl bwyllgorau eraill yn rhithiol llwyr gyda rhai eithriadau megis e.e., Pwyllgor Apêl Cyflogaeth (dibynnol ar gais yr unigolyn). Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion - ystyriaeth pan fo cyfweliadau - rhithiol fel arall Pwyllgorau ac Is Bwyllgorau lle cynhelir gwrandawiadau quasi- farnwriaethol.

Mae'r adroddiad wedi ei fabwysiadu yn sgil gofynion Rhan 3 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 sy'n nodi fod yn rhaid sicrhau mynediad o bell i Gynghorwyr i bwyllgorau. Mewn geiriau eraill, nid yw cynnal cyfarfodydd ffurfiol wyneb yn wyneb yn unig yn bosib.

**Cyng Meryl Roberts (Cynrychiolydd Parc Cenedlaethol Eryri)**

Cwestiwn: Pwy yw perchennog Tŷ'r Orsaf, Penrhyndeudraeth? Bod tir budr gerllaw'r orsaf ac angen tacluso. Angen bin sbwriel yn yr orsaf

Ateb: Network Rail a Trafnidiaeth Cymru i wneud ymholiadau pellach

Cwestiwn: Pwy sydd yn cael gwahodd i gyfarfodydd Cymdeithas Teithwyr Rheilffordd Amwythig – Aberystwyth (SARPA)?

Ateb: Gwahoddiadau yn cael eu rhannu gyda Chynghorau Tref. **Bill Redfern i wneud ymholiadau pellach**

Diolchwyd am y cwestiynau

Cyfarfod nesaf i'w gynnal Tachwedd 2024 – LHE i drefnu

Dechreuodd y cyfarfod am 10:30 a daeth i ben am 11:30

**CADEIRYDD**